


**Crynodeb o Adroddiad Ymchwilio gan:**

## Y Pwyllgor Craffu Amgylcheddol

# Cynllun Datblygu Lleol Newydd: Opsiynau Twf a Chyflawni Strategol CRYNODEB O'R YMCHWILIAD:

**Mawrth 2022**

CARDIFF
CAERDYDD

**Cyngor Caerdydd**

# CYNNWYS

CYNNWYS....2
RHAGAIR....3
CYLCH GORCHWYL....4
YMAGWEDD A FABWYSIADWYD....5
CANFYDDIADAU....7
ARGYMHELLION....8

# RHAGAIR

Ar ran y Pwyllgor Craffu Amgylcheddol ac Aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y Cyd, hoffwn ddiolch i'n holl dystion am gymryd rhan yn y gwaith o graffu ar Opsiynau Twf a Chyflawni Strategol y Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLlN).

Fel y gwelir o'r Cylch Gorchwyl, roedd gan y Grŵp nifer o feysydd allweddol yr oeddent am eu harchwilio, gan gynnwys effeithiolrwydd ymgynghoriad y Cyngor â rhanddeiliaid a'r cyhoedd, gan ganolbwyntio'n benodol ar y cynlluniau a'r dulliau o gynnwys grwpiau anodd eu cyrraedd a grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Nododd y Grŵp Gorchwyl hefyd hygyrchedd, cynwysoldeb, a chynaliadwyedd amgylcheddol fel themâu canolog i'w harchwilio o ran Opsiynau Strategol a Chyflawni'r CDLlN. Yn ogystal â hyn, ceisiodd y Grŵp Gorchwyl archwilio'r rhesymeg ategol ar gyfer y twf rhagamcanol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yn ogystal â sut mae Opsiynau Strategol a Chyflawni CDLlN Caerdydd yn cyd-fynd â chynllunio rhanbarthol.

Cynhaliodd yr Ymchwiliad gyfres o gyfarfodydd gyda thystion mewnol ac allanol i archwilio a chasglu tystiolaeth ar yr Opsiynau Twf a Chyflawni Strategol. Yn ogystal â hyn, cynhaliwyd '*Galwad am Dystiolaeth'* gennym i geisio barn rhanddeiliaid, gan dderbyn 18 o ymatebion gan amrywiaeth o randdeiliaid a grwpiau cynrychioliadol.

Hyderaf fod ein prif ganfyddiadau a'n matricsau tystiolaeth yn ddefnyddiol i chi wrth ddatblygu cam nesaf yr ymgynghoriad ar y Cynllun Datblygu Lleol a'r Strategaeth a Ffefrir. Mae'n hanfodol bod y broses ymgynghori'n cael ei chryfhau drwy ddefnyddio'r argymhellion, y dystiolaeth a'r awgrymiadau a nodir yn y llythyr a'r atodiadau hyn, yn ogystal â'n hargymhellion blaenorol. Mae hefyd yn hanfodol bod gwaith craffu'n ymgysylltu'n gynnar, i ddefnyddio gwybodaeth a chysylltiadau cymunedol yr Aelodau yn effeithiol ac i elwa o'n rôl fel cyfaill beirniadol, er mwyn cryfhau'r broses ymgynghori a'r Strategaeth a Ffefrir yn gyffredinol.

Mae'r Cynllun Datblygu Lleol newydd yn ddogfen allweddol i Gaerdydd, ei dinasyddion, busnesau, gweithwyr, a'n hawdurdodau lleol cyfagos, yn enwedig gan y bydd yn bwydo'r cynllun rhanbarthol. Rydym yn barod i weithio gyda'n gilydd i sicrhau bod proses gadarn ar waith i'w ddatblygu, i alluogi pobl leol i leisio eu barn, ac i sicrhau bod y cynllun terfynol yn addas at y diben. Cymeradwyaf ein hargymhellion i chi.



**Y Cynghorydd Ramesh Patel**
**Cadeirydd - Pwyllgor Craffu Amgylcheddol**

# CYLCH GORCHWYL

- Archwilio, craffu a gweithredu fel ymgynghorai ar yr Opsiynau Strategol ar gyfer y CDLl Newydd gan ganolbwyntio ar sut mae'r rhain wedi mynd i'r afael â:
    - Hygyrchedd a Chynwysoldeb
    - Caerdydd Un Blaned.

- Adolygu proses ymgynghori'r Cyngor hyd yma; archwilio ei effeithiolrwydd a gwneud argymhellion ar gyfer ymgynghori yn y dyfodol ar gamau nesaf y CDLl Newydd.

- Deall y rhesymeg ategol dros y twf rhacamacanol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru er mwyn ystyried a yw'r sylfaen dystiolaeth yn gadarn, yn realistig ac yn ddichonadwy.

- Ystyried sut mae CDLl newydd Caerdydd a'r Opsiynau Strategol yn cyd-fynd â chynllunio rhanbarthol.

- Clywed ac ystyried barn rhanddeiliaid er mwyn llywio argymhellion Craffu ar yr Opsiynau Strategol a phrosesau ymgynghori'r Cyngor.

- Cydlynu a darparu un ymateb ar y cyd gan y Pwyllgorau Craffu.

- Gwneud argymhellion a fydd yn llywio'r penderfyniadau a'r ystyriaethau y bydd Bwrdd Gweithredol y Cyngor yn eu gwneud wrth ddatblygu'r Strategaeth a Ffefrir.

- Gwneud argymhellion a fydd yn llywio unrhyw waith craffu ar y CDLl newydd yn y dyfodol.

# YR YMAGWEDD A FABWYSIADWYD

M1. Ym mis Hydref 2021, roedd pob un o'r pum pwyllgor craffu o blaid sefydlu Ymchwiliad ar y Cyd i ymgymryd â gwaith craffu pellach ar y CDLlN. Arweiniwyd yr Ymchwiliad gan y Pwyllgor Craffu Amgylcheddol, gyda chynrychiolaeth o bob un o'r 5 Pwyllgor Craffu i sicrhau y gellid ystyried pob agwedd y mae'r CDLlN yn effeithio arni. Cyfarfu'r Ymchwiliad rhwng mis Tachwedd 2021 a mis Mawrth 2022, gyda'r grŵp gorchwyl yn cynnwys:

Y Cynghorydd Ramesh Patel (Cadeirydd)
Karen Dell'Armi – Aelod Cyfetholedig PPI
Y Cynghorydd John Lancaster
Y Cynghorydd Sue Lent
Y Cynghorydd Norma Mackie
Y Cynghorydd Adrian Robson
Y Cynghorydd Emma Sandrey
Y Cynghorydd Joel Williams
Y Cynghorydd Peter Wong

M2. Derbyniodd yr Aelodau dystiolaeth gan y rhanddeiliaid mewnol canlynol a fynychodd sesiynau holi ac ateb a chyfrannu at drafodaeth banel:

- Y Cynghorydd Caro Wild, yr Aelod Cabinet dros Gynllunio Strategol a Thrafnidiaeth
- Simon Gilbert – Pennaeth Cynllunio
- Stuart Williams – Arweinydd Grŵp – Polisi - Cynllunio.

M3. Derbyniodd yr Aelodau dystiolaeth gan y rhanddeiliaid allanol canlynol a fynychodd sesiynau holi ac ateb a chyfrannu at drafodaeth banel:

- Cyngor Trydydd Sector Caerdydd - Sheila Hendrickson-Brown
- Edge Analytics – Andrew Fowler, Grace Boden
- Caerdydd AM BYTH – Adrian Field
- Hardisty Jones Associates – Stuart Hardisty
- Cyfoeth Naturiol Cymru – Andy Robinson, Geoff Hobbs
- Y Gymdeithas Alzheimer's – Huw Owen
- Cymdeithas Tai Unedig Cymru - Richard Mann

M4. Neilltuodd y Grŵp Gorchwyl y Prif Swyddog Ymchwil Craffu i ymgymryd â '*Galwad am Dystiolaeth'* i geisio barn rhanddeiliaid ar addasrwydd a chadernid dull y Cyngor o ymgynghori â'r cyhoedd a rhanddeiliaid, yn ogystal â'u barn ar gwmpas a phwnc Opsiynau Strategol a Chyflawni'r CDLlN. Carem hefyd glywed eich barn ar

bwysigrwydd hygyrchedd, cynwysoldeb a chynaliadwyedd amgylcheddol wrth lunio datblygiadau yng Nghaerdydd yn y dyfodol. Mae'r '*Alwad am Dystiolaeth'* yma wedi derbyn 18 o ymatebion gan amrywiaeth o randdeiliaid a grwpiau cynrychioliadol fel y nodir isod:

Adventure Travel
Cymdeithas Ddinesig Caerdydd
Cymdeithas Tai Cymunedol Caerdydd
Pobl yn Gyntaf Caerdydd
Grwp Afonydd Caerdydd
Cyngor Trydydd Sector Caerdydd
Dŵr Cymru
First Bus De a Gorllewin Cymru
Caerdydd AM BYTH
Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg a Gwent
Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi
Cyfoeth Naturiol Cymru
Chwarae Cymru
RSPB
Sustrans
3 Dienw

M5. Cyflwynwyd dau grynodeb o ganfyddiadau'r *Alwad am Dystiolaeth*, un yn canolbwyntio ar y broses ymgynghori ac un ar yr opsiynau strategol, i'r Ymchwiliad gan Ymchwil Craffu, gan amlygu'r prif ganfyddiadau yn sgil yr ymatebion.

M6. Yn eu cyfarfod casglu tystiolaeth terfynol, ar 31 Ionawr 2022, hysbyswyd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen bod y swyddog craffu a oedd yn cefnogi'r Ymchwiliad yn gadael yr awdurdod ganol mis Chwefror 2022 ac felly mai prin oedd yr adnoddau i gwblhau Adroddiad arferol yr Ymchwiliad. Ystyriodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen gamau nesaf yr Ymchwiliad a phenderfynodd mai'r peth gorau i'r swyddog craffu oedd:

- canolbwyntio ar gasglu'r canfyddiadau allweddol i'r Ymchwiliad a llunio'r rhain yn fatricsau, gan nodi'r dystiolaeth sy'n cefnogi'r canfyddiadau
- drafftio llythyr at y Cynghorydd Wild, yn tynnu sylw at y prif ganfyddiadau a chynnwys yr argymhellion a anfonwyd yn gynharach ynghylch y broses ymgynghori. Yn ogystal, byddai'r matricsau'n cael eu rhannu fel atodiadau i ddangos tystiolaeth o'r canfyddiadau a'r argymhellion hyn
- rhannu'r cyflwyniadau Galwad am Dystiolaeth nad ydynt yn gyfrinachol gyda swyddogion cynllunio, i'w galluogi i gael eu cyfrif a'u hystyried fel ymatebion i'r ymgynghoriad ar yr Opsiynau Strategol.

M7. Defnyddiodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen y dystiolaeth a gasglwyd i nodi canfyddiadau addas o'r Ymchwiliad. Cafodd y rhain eu cynnwys mewn llythyr at y Cynghorydd Caro Wild, gydag atodiadau'n cynnwys y matricsau tystiolaeth ar gyfer ymgynghori, opsiynau strategol a chyflenwi, hygyrchedd, cynwysoldeb a chynaliadwyedd amgylcheddol, a chanfyddiadau ac arsylwadau pellach a chraffu yn y dyfodol.

# CANFYDDIADAU

O ystyried y cyfyngiadau amser sy'n gysylltiedig â'r Ymchwiliad hwn a gostyngiad dros dro yn adnoddau staffio Craffu, penderfynodd y Grŵp Gorchwyl gyflwyno canfyddiadau'r Ymchwiliad drwy lythyr estynedig sy'n ymgorffori'r canfyddiadau hyn o ran y gwahanol feysydd a archwiliwyd gan yr Ymchwiliad:

- Ymgynghoriad – Canfyddiadau Allweddol Pellach
- Opsiynau Strategol a Chyflawni – Canfyddiadau Allweddol
- Hygyrchedd, Cynwysoldeb a Chynaliadwyedd Amgylcheddol – Canfyddiadau Allweddol
- Canfyddiadau ac Arsylwadau pellach a Chraffu yn y Dyfodol.

Mae'r llythyr yn nodi prif ganfyddiadau'r dystiolaeth a gasglwyd gydol yr Ymchwiliad, ac sy'n cael ei nodi ymhellach yn y matricsau tystiolaeth sydd ynghlwm fel atodiadau i'r llythyr.

Gellir gweld y llythyr yn llawn yn:

Agenda ar gyfer Pwyllgor Craffu Amgylcheddol Ddydd Mercher, 16 Mawrth, 2022, 4.30 pm : Cyngor Dinas Caerdydd (moderngov.co.uk)

# ARGYMHELLION

Yn dilyn eu cyfarfod ym mis Tachwedd 2021 i ystyried y broses ymgynghori, anfonodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen lythyr at y Cynghorydd Wild, Aelod o'r Cabinet – Cynllunio Strategol a Thrafnidiaeth, yn nodi'r argymhellion canlynol gyda'r nod o wella'r ymgynghoriad parhaus ar yr Opsiynau Twf a Chyflawni Strategol.

**Tachwedd 2021**

R1. Bod crynodeb 'hawdd ei ddefnyddio' yn cael ei ddatblygu yn ogystal â'r ddogfen ymgynghori, gan roi mwy o esboniad am yr hyn y mae'r ymgynghoriad yn ei olygu, rhesymeg glir y tu ôl i'r gwahanol opsiynau sy'n cael eu cyflwyno a'r hyn y mae'r gwahanol opsiynau'n eu cynrychioli, er mwyn gallu eu cymharu'n briodol.

R2. Mae'r crynodeb hwn hefyd yn rhoi arweiniad clir i ymatebwyr ynghylch pam y ceisir eu barn, beth yn union y gofynnir iddynt ei ddarparu fel ymateb, sut y gallant ymateb yn briodol, a sut y defnyddir eu barn i lywio'r gwaith o ddatblygu'r Strategaeth a Ffefrir. Awgrymir y bydd angen eglurhad pellach ar yr olaf hefyd.

R3. Dylid ystyried cyflwyno cynrychiolaeth weledol o'r opsiynau, yn eu hystyr ehangaf, gan werthfawrogi nad yw union safleoedd wedi'u pennu eto. Er na fyddai map o safleoedd yn bosibl ar hyn o bryd, cytunodd swyddogion y gellid darparu ffeithluniau gofodol.

R4. Bod manylion pellach yn cael eu cynnwys yn y papur cryno o ba fathau o dai y gellid eu cynnwys yn yr opsiynau a gyflwynir, megis tai fforddiadwy neu dai cymdeithasol, tai i bobl hŷn ac ati. Yn yr un modd, dylid cynnwys manylion bras ynghylch pa fathau o swyddi y gellid eu hystyried a sut y maent yn diwallu anghenion asesedig Caerdydd a'i thrigolion. Bydd y wybodaeth hon yn helpu'r cyhoedd i ddeall goblygiadau'r opsiynau a gyflwynir ac yn helpu i ddarparu cymaryddion ymarferol ar gyfer ymatebwyr.

R5. Bod rhestr termau'n cael ei darparu ochr yn ochr â'r papur ymgynghori.

R6. Ar bwnc grwpiau anodd eu cyrraedd neu heb gynrychiolaeth ddigonol, yn benodol y rhai o gefndir BAME neu'r rhai ag anableddau, bydd ymgysylltu'n y dyfodol yn ceisio ymgysylltu ag Aelodau'r Cyngor sy'n dod o'r cefndiroedd hyn a defnyddio eu gwybodaeth am y cymunedau hyn i'w helpu i nodi cynrychiolwyr a grwpiau i ymgysylltu â nhw.

Derbyniwyd ymateb i'r llythyr hwn, gan dderbyn yr holl argymhellion ac eithrio A3, a dderbyniwyd yn rhannol.

**Mawrth 2022**

Gwnaeth y grŵp gorchwyl yr argymhellion canlynol ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a gasglwyd gydol yr Ymchwiliad.

R1. Mae'r dystiolaeth a'r canfyddiadau allweddol o ran y **broses ymgynghori Gorfforaethol** ar gyfer yr Opsiynau Strategol a Chyflawni a geir yn y llythyr hwn a'r matrics amgaeedig (*Atodiad F)* yn cael eu defnyddio i lywio a datblygu'r broses ymgynghori ar gyfer y Strategaeth a Ffefrir a'r holl brosesau ymgynghori eraill ar gyfer camau'r CDLlN yn y dyfodol.

R2. Mae'r dystiolaeth a'r canfyddiadau allweddol ar yr **Opsiynau Strategol a Chyflawni** sydd wedi'u cynnwys yn y llythyr hwn a'r matrics amgaeedig (*Atodiad G*) yn cael eu hymgorffori fel ymatebion ffurfiol ac yn derbyn yr un pwysoliad â'r rhai o'r broses ymgynghori Gorfforaethol.

R3. Mae'r dystiolaeth a'r canfyddiadau allweddol o ran **hygyrchedd, cynwysoldeb a chynaliadwyedd amgylcheddol** sydd wedi'u cynnwys yn y llythyr hwn a'r matrics amgaeedig (*Atodiad H*) yn cael eu hymgorffori fel ymatebion ffurfiol ac yn derbyn yr un pwysoliad â'r rhai o'r broses ymgynghori Gorfforaethol o ran yr Opsiynau Strategol a Chyflawni.

R4. Mae'r dystiolaeth a'r canfyddiadau allweddol o ran **hygyrchedd, cynwysoldeb a chynaliadwyedd amgylcheddol** sydd wedi'u cynnwys yn y llythyr hwn a'r matrics amgaeedig (*Atodiad H*) yn cael eu defnyddio i lywio'r gwaith o ddatblygu'r Strategaeth a Ffefrir ar gyfer y CDLlN fel rhan o fynd i'r afael ac o ddiwallu anghenion yr unigolion a'r cymunedau yng Nghaerdydd yn ogystal â chyfrifoldebau amgylcheddol y Cyngor.

R5. Bod **blaenoriaeth i'w roi i graffu** yng nghamau'r CDLlN yn y dyfodol, gyda golwg gynnar ar ddogfennau ymgynghori'r CDLlN er mwyn gallu ystyried eu hadborth cyn iddynt gael eu cwblhau i'w cyhoeddi.

R6. Bod **pob grŵp gwleidyddol** yn cael drafft cynnar o ddogfennau ymgynghori'r CDLlN i'w hystyried cyn eu cwblhau fel y gallant hefyd roi sylwadau ac awgrymu diwygiadau i'w hymgorffori

# Aelodau'r Pwyllgor Craffu



Y Cynghorydd Ramesh Patel
(Cadeirydd)



Y Cynghorydd Bob Derbyshire



Y Cynghorydd Owen Jones



Y Cynghorydd John Lancaster



Y Cynghorydd Jacqueline Parry



Y Cynghorydd Thomas Parkhill



Y Cynghorydd Oliver Owen



Y Cynghorydd Emma Sandrey



Y Cynghorydd Peter Wong

--

Gwasanaethau Craffu, Cyngor Sir Caerdydd
Ystafell 263, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd CF10 4UW
029 2087 2781 E-bost: barngraffu@caerdydd.gov.uk
(h) 2022 Cyngor Sir Caerdydd